# 5. Cyflwyno PIP i hawlwyr newydd

## Mae'r ffeithlen hon yn amlinellu'r dull graddol mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ei gymryd i gyflwyno PIP ar gyfer hawlwyr newydd.

### Cyflwyno PIP

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi penderfynu defnyddio dull graddol i gyflwyno PIP gan ddechrau gyda nifer cyfyngedig o geisiadau newydd o 8 Ebril 2013 cyn cynyddu niferoedd ceisiadau newydd i'w gyflwyno'n genedlaethol o 10 Mehefin 2013. O 7 Ebrill 2013, bydd DWP yn dechrau gwahodd hawlwyr DLA presennol i wneud cais am PIP.

Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod cyflenwi PIP yn gywir drwy:
caniatáu i brosesau ymsefydlu
sicrhau bod ein systemau yn gweithio fel y bwriadwn a
dysgu o brofiadau ceisiadau'r cyfnod cynnar hwn.

### 8 Ebrill 2013

O 8 Ebrill 2013, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dechrau cymryd ceisiadau newydd i PIP gan bobl rhwng 16 a 64 oed sy'n byw yng Ngogledd Orllewin a Gogledd Ddwyrain Lloegr.

Bydd ceisiadau newydd i DLA yn parhau i fod ar gael i weddill Prydain Fawr tan 10 Mehefin 2013.

Rhwng 8 Ebrill 2013 a 9 Mehefin 2013, ni all unrhyw un y tu allan i'r ardaloedd hyn wneud cais am PIP.

### 10 Mehefin 2013

O'r 10 Mehefin 2013 bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dechrau cymryd ceisiadau am PIP ym mhob rhan o Brydain Fawr. Ni fydd mwy o geisiadau newydd ar gyfer DLA yn cael eu cymryd gan bobl rhwng 16 a 64 oed o'r dyddiad hwn.

### 7 Hydref 2013

O'r dyddiad hwn, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dechrau gwahodd rhai derbynwyr Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) presennol i wneud cais am PIP.

Gellir gweld manylion am ailasesu hawlwyr DLA presennol yn ffeithlen 6.



Adran Gwaith a Phensiynau

## Gwneud cais am PIP

Gellir gweld manylion am sut i wneud cais am PIP yn ffeithlen 7.

Adran Gwaith a Phensiynau